| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **13 Ebrill 2015** |
| **TEITL :** | **Adroddiad y Swyddog Monitro ar ymchwiliad i gwyn yn erbyn y Cynghorydd Julian Kirkham o Gyngor Cymuned Arthog** |
| **AWDUR :** | **Uwch Gyfreithiwr** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu'n derfynol ar adroddiad a baratowyd gan y Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Yn dilyn cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y Cynghorydd Kirkham, wedi torri'r cod ymddygiad i aelodau, cyfeiriwyd y mater at y Swyddog Monitro am ymchwiliad ac i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

2. Yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001 ('y Rheoliadau'), ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog Monitro yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2015. Daeth i'r casgliad, ar sail yr adroddiad hwnnw, y dylai'r Cynghorydd Kirkham gael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.

3. Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau a wnaed yn erbyn cynghorwyr ac a gyfeirir at y Pwyllgor i'w' weld yn y Atodiad A .

**Adroddiad Ymchwiliad y Swyddog Monitro**

4. Gofynnir i'r Aelodau ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (Atodiad B) a'r sylwadau ysgrifenedig sydd wedi eu cyflwyno gan y Cynghorydd Kirkham(Atodiad C).

**Argymhelliad**

5. Bod y Pwyllgor ystyried yr honiad yn erbyn y Cyng. Kirkham a dod i un o'r penderfyniadau sy'n agored iddo ei wneud. Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor, ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau, ddod i un o'r penderfyniadau canlynol:

(a) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac felly nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;

(c) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei geryddu; neu

(ch) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis